
AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 242 Mehefin – Gorffennaf 2023

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Ymddiheuriadau os ydw i wedi dweud y stori yma o'r blaen, ond ar ôl bron i ddeng mlynedd o sgrifennu ar gyfer y *Gwyliedydd*, rwy'n anghofio beth rwyf neu nad wyf wedi ei ddweud! (Felly gobeithio na fydd darllenwyr rheolaidd yn cofio, chwaith!)

Flynyddoedd yn ôl, roeddwn i'n siarad efo ffrind o'r coleg a oedd yn offeiriad yn Eglwys Loegr – boi hwyliog, llawn hiwmor. Gofynnodd am fy ngweinidogaeth, a dywedais i y byddwn yn symud i benodiad newydd yn yr haf. "You Methodists!" meddai. "You can't keep still for five minutes!"

Roedd o'n iawn, mewn ffordd, wrth gwrs. Fel arfer, bydd gweinidogion yr Eglwys Fethodistaidd yn cael eu penodi am bum mlynedd, gan symud ymlaen yn aml iawn ar ôl hynny. Dyna beth oedd y drefn yn fy achos i, fwy na lai, tan i mi ddod yn ôl i Gymru yn 2013. Cawn rai eithriadau, wrth gwrs, fel yn hanes Arolygydd Cylchdaith Cymru, y Parchedig Ddr Ian Morris, ond beth sy'n digwydd fel rheol yw nad yw cylchdaith yn cynnig estyniad i weinidog neu fod y gweinidog am geisio profiad newydd mewn penodiad arall. Mae arwyddion fod hynny'n newid i raddau, gyda'r prinder gweinidogion, ond mae gweinidogaeth deithiol wedi bod yn rhan o fywyd yr Eglwys Fethodistaidd ers dyddiau John Wesley. Mae mynd a dod yn rhan o'n DNA.

Yr haf hwn, rydym yn ffarwelio â gweinidog sydd wedi gwasanaethu fel Cadeirydd yng Nghymru am 16 o flynyddoedd, sef y Parchedig Ddr Stephen Wigley, Cadeirydd yr hen Wales Synod ac, ers 1af Medi 2022, un o ddau Gadeirydd ein Synod newydd. (Druan ohono, dim ond blwyddyn gafodd o yn y swydd!) Rhoddodd Stephen ychydig o'i hanes i ni yn rhifyn Chwefror-Mawrth y *Gwyliedydd*. Mae'n dweud yn aml, "I'm married to the Church in Wales!" oherwydd mae ei wraig, Jenny, yn offeiriad Anglicanaidd, ond yn wir, mae cariad Stephen tuag at Gymru yn mynd tu hwnt i'r jôc bach yna, ac mae ei ymrwymiad i eglwys Iesu Grist yng Nghymru ac i'n gwlad yn amlwg. Bydd colled fawr ar ei ôl, er y bydd Stephen a Jenny yn parhau i fyw yng Nghaerdydd. Gobeithio y bydd nifer go dda o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* yn dod i ddweud diolch i Dduw a ffarwel i Stephen yn un o'r gwasanaethau canlynol:

**Dydd Sadwrn 17 Mehefin** am 2.30yp yn Eglwys Fethodistaidd St David, Craig-y-Don, Llandudno

**Dydd Sul 18 Mehefin** am 10.30yb yng Nghanolfan Fethodistaidd St Paul, Aberystwyth

**Dydd Sadwrn 15 Gorffennaf** am 2.30yp yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Caerdydd

Darperir lluniaeth ar ôl pob gwasanaeth, felly bydd cyfle i gymdeithasu a chyfarfod â ffrindiau hen a newydd.




Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu Cadeirydd newydd. Ar 1 Medi, bydd y Parchedig Andrew Charlesworth yn dechrau yn ei benodiad newydd, ac am 2.30yp ar ddydd Sadwrn 2 Medi, mewn gwasanaeth yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Caerdydd, byddwn yn croesawu Andrew i'n plith. Bydd y Parchedig Ddr Jonathan Hustler, Ysgrifennydd y Gynhadledd, yn pregethu ar yr achlysur pwysig yma, ac mae croeso cynnes i bawb. Daw Andrew atom o Dalaith Nottingham a Derby, lle mae wedi gwasanaethu fel Cyd-arolygydd Cylchdaith Nottingham (North East) a Dirprwy Gadeirydd. Mae ganddo gefndir fel ystadegydd, sy'n rhyddhad i mi fel ei gydweithydd sy'n gallu cyfrif hyd at 10 dim ond oherwydd mai dyna nifer y bysedd sydd gen i! Bendith Duw ar Stephen ac Andrew wrth iddynt baratoi i symud a dechrau cyfnod newydd yn eu bywydau, ac arnom ni i gyd.

Os wyf wedi dysgu un peth am Dduw dros y blynyddoedd, dyma fo: efo Duw, does dim drws yn cau heb i ddrws arall agor. Mae diweddiadau a dechreuadau newydd yn rhan o'n bywyd dynol, er inni geisio eu rhwystro weithiau. Mae gen i ffrind sy'n 60 oed eleni ac mae wedi trio pob math o bethau (gwirion!) i geisio stopio'r cloc neu hyd yn oed ei droi yn ôl. Dydy o jyst ddim yn bosib. Mae'n rhaid i mi gyfaddef, fel disgybl i Iesu Grist, fy mod yn teimlo'n gyffrous iawn wrth edrych tua'r dyfodol, er gwaethaf yr heriau sy'n ein hwynebu ni i gyd. Rwy'n edrych ymlaen at weithio ochr yn ochr ag Andrew; rwy'n edrych ymlaen at weld bywyd ein Synod dwyieithog yn datblygu; rwy'n edrych ymlaen at weld pwy fydd Duw yn ei alw i fy nilyn i fel Cadeirydd pan ddaw fy amser i symud ymlaen, ac yn edrych ymlaen at weddill tragwyddoldeb sydd wedi cychwyn yn barod! Ymhlith yr holl newid a'r mynd a dod, mae Duw yn gyson; mae Duw gyda ni am byth.



# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 242**
**MEHEFIN – GORFFENNAF 2023**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**


**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk


**DYDDIAD CAU**
8 GORFFENNAF 2023

Llun y clawr: Ti a arlwyi ford ger fy mron

Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


## Diolch

Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd. Diolch o galon i Bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd am eu haelioni tuag atom.

| | |
|---|---|
| Capel Bethel, Llansanffraid | £ 60-00 |
| M.W. Lloyd, Llanfairpwll | £ 25-00 |
| M. Tüzüner, Y Felinheli | £ 50-00 |
| Er cof am ein rhieni Y Parchedig Tudor Davies (a fuasai yn 100 oed eleni) a Mrs Morfudd Davies gan Llinos (Merthyr) a Gwyn (Aberystwyth) | £ 40-00 |
| Y Parchedig Philip Barnett, Almondbury | £ 20-00 |
| Eirian Williams, Llanfairpwll | £ 25-00 |
| Valerie Williams, Pwllheli | £ 15-00 |
| Y Parchedig J.P. Barnett, West Kirby | £ 10-00 |
| Dienw | £ 20-00 |
| Is-bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd | £500-00 |
| Cyfanswm | £765-00 |



## Gweithredu Dros Blant

Mae pethau wedi bod eithaf distaw yn ddiweddar ond hoffem ddiolch i gyfeillion Eglwysbach am y rhodd a dderbyniwyd tuag at Gweithredu dros Blant, a ddaeth i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

Ebeneser, Eglwysbach £25.00

Anfonwyd y swm hwn ymlaen yn enw Cylchdaith Cymru.
Hyfryd oedd clywed fod Karis Kolawole, Pennaeth Partneriaethau Ffydd, wedi cael merch fach. Ei henw yw Joy. Llongyfarchiadau iddynt fel teulu bach newydd.
Gan ddiolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden,
Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com

## Darlith Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Ar ddydd Iau 10fed o Awst, yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, cynhelir darlith y Gymdeithas Hanes a'r darlithydd fydd y Parchedig Aled Edwards, cyn Brif Weithredwr Cytûn. Testun y ddarlith fydd Bywyd a Gwaith y Parchedig Griffith Thomas Roberts, ysgolhaig a gweinidog Wesleaidd a fagwyd ym mhen Llŷn. Bydd y ddarlith am 4 o'r gloch ym Mhabell y Cymdeithasau 1 ac mae croeso cynnes i bawb.



# Penwythnos Merched Methodistaidd yn Swanwick – 14 – 16 Ebrill 2023




***gan Margaret Morgan***

Hyfryd oedd gallu mynychu'r penwythnos unwaith eto ar ôl seibiant o ychydig o flynyddoedd, a chyfarfod 'hen' gyfeillion o'm cyfnod ar y Fforwm. Y tro hwn cefais gwmni Elizabeth Jones, Pentrecelyn, a oedd yn mynychu'r gynhadledd am y tro cyntaf. Thema'r penwythnos oedd *Voices in Harmony*. Wedi gwneud ymholiadau llwyddom i gael lifft gyda Stephanie, y mae ei gŵr yn weinidog yng Nghylchdaith Bwcle, a braf oedd ei chyfarfod am y tro cyntaf. Hyfryd hefyd oedd cyfarfod Kathryn a Francis o Gylchdaith Prestatyn a Chonwy.

Mae'r penwythnos yn gyfle i ni, fel Merched Methodistaidd, ddal i fyny gyda newyddion y Llywyddion a'r Ffederasiwn Byd-eang. Teitl anerchiad ein prif siaradwr, Pam Rhodes (*Songs of Praise*) oedd *Hymns & Her*. Cawsom hanesion am gefndir sawl emyn a'u hawduron a chyfle i ganu'r emynau. Nid dyma'r unig dro i ni ganu oherwydd cawsom gyfle i geisio dysgu arwyddo i rai emynau gan ddefnyddio BSL. Nid peth hawdd, os nad yw'r emyn yn gyfarwydd, yw ceisio dilyn yr arwyddo ac edrych ar y geiriau yr un pryd! Siaradwraig arall oedd y Parchedig Jenny Pathmarajah, sydd bellach yn byw yng Nghaergrawnt, a theitl ei hanerchiad oedd "*Rock 'n' Roll's rocky relationship with worship*" – wel dyna agoriad llygad!

Yn ogystal â'r adegau pan oeddem i gyd gyda'n gilydd yn y neuadd, cawsom gyfle ar y prynhawn Sadwrn i ymuno mewn gweithdai. Hefyd, i'r rhai oedd yn gallu codi yn ddigon boreol roedd modd ymuno mewn grwpiau gweddi, ac fe aeth y ddwy ohonom am dro 'gweddigar' o amgylch y llyn, dan arweiniad Barbara Easton. Uchafbwynt y penwythnos oedd Gwasanaeth y Cymun ar y bore Sul dan arweiniad y Parchedig Helen Stubbs – 200 ohonom yn cyd-gyfranogi o'r bara a'r gwin. Braint i'r ddwy ohonom oedd cael gwahoddiad i ledio Gweddi'r Arglwydd yn Gymraeg. Wrth gwrs roedd pawb arall yn ei hadrodd yn eu hiaith eu hunain – ac nid dim ond yn Saesneg oedd hynny. Daeth un i fyny atom ar ddiwedd yr oedfa gan ddweud, er nad oes ganddi lawer o Gymraeg, fod clywed Gweddi'r Arglwydd yn cael ei hadrodd yn Gymraeg wedi mynd a hi'n ôl i pan oedd hi'n eneth fach ac yn tyfu i fyny yn Aberdâr. Ers sawl blwyddyn bellach mae hi'n byw yng Ngwlad yr Haf.

Hoffai Elizabeth a minnau ddiolch i bwyllgor Merched Methodistaidd (Cylchdaith Cymru) am y cyfle i fynychu'r penwythnos hwn. Mae'r gynhadledd yn cael ei chynnal yn flynyddol ym mis Ebrill a hynny yn Swanwick, Swydd Derby. Byddai'n hyfryd pe byddai criw ohonom, o Gylchdaith Cymru, yn gallu mynychu gyda'n gilydd.



# LLANGOLLEN



gan y **Parchedig Ruth Gee**

Cymraes oedd fy mam. Yng Nghasnewydd yr oedd ei theulu hi'n byw a byddem yn mynd atynt i Gasnewydd bron pob gwyliau. Doedd ein teulu ni ddim yn siarad Cymraeg er y byddem yn defnyddio nifer o eiriau neu ymadroddion Cymraeg yn ein sgwrs o ddydd i ddydd. 'Cwtsh up' oedd y dywediad am glosio at ein gilydd ac 'ych a fi' fyddai rhywbeth annymunol. Pan oeddwn yn blentyn doeddwn i ddim yn sylweddoli nad oedd y rhain, a dywediadau Cymraeg eraill oedd ar dafod leferydd gan y teulu, yn rhan o eirfa arferol trigolion y pentref lle cefais fy magu yn Swydd Wiltshire!

Bellach mae Robert a finnau wedi ymgartrefu yng ngogledd Cymru ac mae rhagor o ymadroddion Cymraeg wedi dod yn gyfarwydd imi – er bod angen imi ddilyn ei esiampl ef yn awr a dechrau dysgu'r iaith.

Yn Eglwys Fethodistaidd Llangollen yr wyf yn addoli ers imi ddod yn uwchrif ac mae'n fraint hefyd cael cynnig gofal bugeiliol yma a chydweithio â'r bobl yn yr eglwys hon a'r gymuned leol. Capel Saesneg yw hwn ond mae nifer o'r gynulleidfa yn Gymry Cymraeg neu'n dysgu'r iaith. Mae llawer o frwdfrydedd o blaid dysgu a siarad Cymraeg ac mae llawer o'r plant sy'n dod yn rheolaidd i'r gwasanaethau yn siarad y ddwy iaith ac yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae cryn lewyrch ar y gwaith gyda phlant a phobl ifanc ac mae'n hanfodol fod ein cenhadaeth yn defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Mae rhai o aelodau'r capel yn rhan o dîm Agor y Llyfr, sy'n cael eu croesawu'n frwd mewn tair ysgol leol. Mae'r ysgolion hefyd yn falch o dderbyn llyfryn y Scripture Union ar gyfer plant Blwyddyn 6 sef *Y Cam Nesaf*. Bydd hwn yn eu dwylo yn fuan.

Mae'r aelodau sy'n dysgu Cymraeg yma yn selog am ymuno yng ngweithgareddau Llanddysgwyr, ac yn Llangollen y cynhelir y digwyddiad Credu a Chreu nesaf. Mae'r dysgwyr yn ymarfer eu Cymraeg pryd bynnag y byddant yn cyfarfod ac yn annog eraill i roi cynnig ar siarad yr iaith.

Un o'r eglwysi sy'n rhan o Cytûn Llangollen yw cynulleidfa gydenwadol Gymraeg Seion a phan fydd Cytûn yn cynnal addoliad ecwmenaidd fe sicrheir bod emynau, darlleniadau a gweddïau Cymraeg yn cael eu cynnwys. Yn yr Eglwys Fethodistaidd rydym yn ymdrechu i gynnwys mwy o Gymraeg yn rheolaidd yn yr addoliad, er mai dim ond megis dechrau y mae hyn.

Wrth gwrs, mae eraill sydd â chysylltiad â'r eglwys yn mynd ati yn eu gwahanol feysydd i ddysgu'r iaith Gymraeg. Dyma a ddywedodd un o swyddogion ein heglwys:

> Yn Llangollen y mae fy mab a'i deulu'n byw ac mae o'n athro yn Wrecsam. Cafodd flwyddyn sabothol yn 2019 dan nawdd Llywodraeth Cymru er mwyn dysgu Cymraeg. Ers hynny mae wedi gwneud yr iaith yn rhan annatod o'r addysg yn ei ysgol gynradd. Yr wythnos diwethaf mi wnaeth o roi anerchiad am hyn i 90 o benaethiaid ar gais y gwasanaeth addysg GwE. Wedyn dyma nhw'n gofyn i'w bennaeth ei ryddhau am 10 diwrnod i gynnig cefnogaeth i ysgolion eraill. Teulu di-Gymraeg ydym ni.

Saesneg yw cyfrwng ein heglwys Fethodistaidd yn Llangollen ond rydym yn dod yn fwyfwy ymwybodol o ogoniant yr iaith Gymraeg a'r lle hanfodol sydd iddi yn ein haddoliad a'n cenhadaeth.

Yn awr mae angen i'r uwchrif yma fynd ati o ddifrif i ddysgu.

*Bu Ruth yn Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd yn 2013-4 a gwasanaethodd hefyd fel Ysgrifennydd Cynorthwyol y Gynhadledd a Swyddog Ecwmenaidd y Cyfundeb. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am y cyfraniad hwn i'r Gwyliedydd, a droswyd i'r Gymraeg. Dymunwn yn dda iawn i Ruth a'i phriod Robert ac i'r cyfeillion yn Eglwys Fethodistaidd Llangollen a hefyd Eglwys Gydenwadol Seion sef y Capel Wesle Cymraeg gynt.*

*[Please email the editors if you would like to read the article in the original English] – Gol.*



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Ebeneser, Trefor, Môn*

**GWELLHAD**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Catherine Roberts, un sydd wedi bod yn ffyddlon iawn yn Ebeneser, yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion ati.



**SUL Y BLODAU**
Ar nos Sul y Blodau cawsom gwmni'r Parchedigion Jennie Hurd ac Ian Morris yn yr oedfa. Roedd y gwasanaeth dan ofal Rhian Evans-Hill a hon oedd ei hoedfa brawf. Cafwyd oedfa fendithiol iawn ac yn ystod y gwasanaeth rhannwyd croesau bach pren a wnaed gan Jim, gŵr Rhian, i bawb oedd yn bresennol. Rydym fel Cylchdaith yn ddiolchgar iawn fod rhai fel Rhian yn fodlon rhoi eu hamser a'u hegni i ddilyn cwrs i fod yn bregethwyr cynorthwyol. Un arall sydd wedi gwneud y cwrs yw Ffion Rowlinson a bu hithau yma yn pregethu ddechrau Mai. Dymunwn yn dda i'r ddwy ohonynt yn y dyfodol.

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

### *Bethel, Rhiwbeina*

**OEDFAON**
Yn ddiweddar cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchg. Aled Edwards, Dr Eirian Dafydd, Y Parchg. Gwilym Wyn Roberts ac i gloi'r mis ein gweinidog y Parchg. Evan Morgan. Cawsom wasanaeth Cymun ar Sul y Blodau yng ngofal Evan ac roedd cyfle i sgwrsio dros baned wedi'r oedfa. Ar Sul y Pasg roedd gwahoddiad i ymuno â'r gynulleidfa yn Salem, Treganna. Diolch i Mrs Mair Davies am baratoi'r gwasanaeth ar 16 Ebrill ac i bawb a gymerodd ran. Mae croeso i bawb ymuno yn ein gwasanaeth bob bore Sul am 10.15.

**HELPU'R GYMUNED**
Mae'r bocs ar gyfer y Banc Bwyd yn cael ei lenwi'n gyson. Diolch i bob un sy'n cyfrannu mor hael ac i Mr Howel James am gludo'r nwyddau i'r ganolfan. Ym mis Mehefin byddwn yn cynnal Bore Coffi i godi arian tuag at elusennau lleol.

**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

### *Horeb, Betws yn Rhos*

**ACHLYSUR HAPUS**
Roedd dydd Sul 23 Ebrill yn ddiwrnod arbennig yn ein hanes gan i ni ailagor ein drysau wedi ysbaid o 3 blynedd. Achlysur hapus dros ben dan ofal ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan. Diolch i Mona, Anna ac Eilir am eu gwaith caled i sicrhau fod yr adeilad yn barod ar gyfer ailagor ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r achlysur arbennig. Edrychwn ymlaen at gynnal gwasanaethau misol yn y dyfodol.
**GOHEBYDD .** ANNA PREECE



### *Pendref, Dinbych*

**GWASANAETHAU BENDITHIOL**
Yn ystod Mawrth ac Ebrill cynhaliwyd gwasanaethau bendithiol dan ofal Dilwyn Jones, Royce Warner, Maryl Rees, Huw Vaughan Jones ac Arwel Roberts. Diolch yn fawr iddynt ac i'r aelodau a arweiniodd gyfarfodydd gweddi. Rhannwyd cyfrifoldeb blaenor mis Mawrth rhwng Hywel Evans a Medwyn Jones, gyda Medwyn yn gofalu am fis Ebrill. Diolch i Vera Savage am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu. Anfonwn ein dymuniadau gorau at yr aelodau hynny sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu mynychu'r oedfaon.

**OEDFA'R GROGLITH**
Ar ôl pedair blynedd o gael ein rhwystro gan Covid, cawsom gynnal oedfa'r Cymun ar fore Dydd Gwener y Groglith, sydd yn draddodiad ym Mhendref ers llawer blwyddyn. Roedd dan ofal ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan, gyda chroeso i holl drigolion y dref.

**HANES DINBYCH**
Bydd drysau Pendref a hefyd Capel Lôn Swan a'r Capel Mawr yn agored rhwng 3 a 6 pnawn dydd Mercher Mehefin 21ain er mwyn i'r cyhoedd gael cyfle i werthfawrogi'r tri adeilad hanesyddol yma yn Ninbych a hefyd fel rhagarweiniad i ddarlith gan yr Athro Jerry Hunter yng Nghapel Lôn Swan am saith yr hwyr, ar y Parch Robert Everett a'r ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth yn yr America.

Mae'r deunydd hanesyddol o hen Gylchdaith Dinbych, y tynnwyd sylw ato yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd,* yn parhau i gael ei arddangos yn Amgueddfa Dinbych.

**FFAIR WANWYN**
Cynhaliwyd ein Ffair Wanwyn ar Fai 20fed yng Nghanolfan Eirianfa, am y tro cyntaf ar ôl cyfnod Covid.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

## Horeb, Croesoswallt

**ADFER YN DILYN COVID**
Wedi Covid, a marwolaeth ein gweinidog, nid oes llawer wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf. Eleni nid ydym ond yn cael un oedfa y mis rhwng y ddwy eglwys (Horeb a Seion), ond rydym yn trefnu i gael dwy y flwyddyn nesaf.

**ER COF ANNWYL**
Bu farw Mrs Beryl Powell fis Chwefror yn 93 mlwydd oed. Roedd yn ffyddlon iawn i'r achos a bu'n ohebydd i'r *Gwyliedydd* am rai blynyddoedd. Bu ei hangladd ar 22 Mawrth yn Horeb, a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Trefarclawdd. Gweinyddwyd gan y Parchedig Gwyndaf Richards ac aelodau o'r teulu yn rhoi teyrngedau. Cydymdeimlwn â'i dwy ferch, Nest a Haf, a'r teulu oll yn eu galar.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â theulu Mrs Myfyd Davies, a fu farw yn 91 mlwydd oed. Bu'n organydd ac aelod ffyddlon yma, ac yn un o ddarllenwyr brwd y *Gwyliedydd*.

**Y PASG**
Ar Sul y Pasg yn Seion cafwyd oedfa o dan ofal y chwiorydd. Bu'r Parchedig Dilys Jones yn gwasanaethu yn Horeb ar 30 Ebrill ac ar y Sul cyntaf o Fai yn Seion y brodyr oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth.

**GOHEBYDD .** EURWYN JONES

## Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Dymuniadau gorau i Gwyn Williams ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ddiwedd Mehefin. Pob hapusrwydd a bendith iddo a dymuniadau gorau hefyd i Rob Stephen, priod Edwina, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig yn 70 oed.

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Marian, Corwen, ar golli chwaer sef Rhoswen o ardal Trefnant, ac at Audrey o golli nith sef Gwenda, gynt o Wern Ddu, Gwyddelwern.

**TRINIAETH**
Anfonwn ein cofion at Elved, Glyndyfrdwy, a gafodd driniaeth i'r llygad, ac at bawb sy'n methu mynychu'r oedfaon am wahanol resymau.

**GENI**
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Audrey ar enedigaeth gor-wyres arall, Ethni Clwyd, sef merch fach i Betsan ac Aron a chwaer i Magi Emyr, wyres i Clwyd ac Eleri. Pob hapusrwydd iddynt fel teulu.

**GWASANAETHAU**
Daeth cynulleidfa dda i Lys Awelon ar gyfer Gwasanaeth a Chymun Sul y Blodau o dan arweiniad y Parchedig Jennie Hurd. Roedd rhai wedi dod â blodau hardd. Estynnwyd croeso gan Rhodri; cyfeiliwyd gan Rhian; a darllenwyd gan Elizabeth. Cyfle wedyn i gymdeithasu a mwynhau lluniaeth. Bu Elizabeth a'r Parchedig Marc Morgan yn cynnal gwasanaethau yn Ebrill a Mai a braf oedd cael cwmni rhai o breswylwyr Llys Awelon. Yn sicr dyma'r ffordd ymlaen sef estyn allan i'r gymuned. Gwasanaethau bendithiol iawn.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES



**ADUNIAD** – Cafwyd amser braf yn ddiweddar yn aduniad hen gapel Wesle Llanelidan.

## Merched Methodistaidd ym Mhrydain





Hyfryd oedd cael dod at ein gilydd i Brestatyn eleni. Diolch yn fawr am y croeso a'r cinio blasus sef Cinio Cyfeillgarwch. Cafwyd gair o groeso a gweddi gan Elizabeth, y Llywydd, a chyfle i weld cynnyrch rhai o'r merched sef gwaith llaw a ddefnyddiwyd i godi arian at wahanol achosion da. Dangosodd Edwina o gapel Bathafarn waith pwytho a gwau a wnaed yn ystod y cyfnod clo. Prynhawn diddorol iawn. Diolch i Geunor am gyfeilio ac i Rona yr ysgrifennydd a Manon y trysorydd am eu gwasanaeth.

# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

### ATAL DWEUD

Faint ohonoch chwi ddarllenwyr y Gwyliedydd sydd ag atal dweud neu sydd wedi bod â'r cyflwr rywbryd yn eich bywydau? Yn ôl gwefan Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr golyga'r cyflwr fod "llif siarad yn cael ei darfu. Caiff synau neu sillafau eu hail-adrodd neu eu gwneud yn hirach, neu bydd geiriau'n mynd yn sownd neu ddim yn cael eu creu o gwbl." Tua diwedd cyfnod Ysgol Gynradd a chychwyn yr Uwchradd, cefais i sbel ohono – nid oedd yn rhy ddrwg a diolch i'r drefn diflannodd yn weddol sydyn. Yr ofn mwyaf gennyf bryd hynny oedd darllen o'r Beibl yn gyhoeddus ar y Suliau (Y Llithoedd fel y'u gelwid) yng ngwasanaethau y Foreol Weddi neu'r Gosber yn eglwys fach Dinorwig. Yn aml iawn, roedd y pryder ymlaen llaw yn waeth na'r darllen ei hun, ond roedd y cyfan yn peri anesmwythder a niwsans i mi ar adegau. Byddwn yn ymarfer y darlleniadau ar fy mhen fy hun yn aml yn y parlwr, neu yn yr ardd lle nad oedd neb ond cynulleidfa o ieir yn gwrando arnaf yn syn! Yn rhyfedd iawn, am ryw reswm, ni fyddai'r atal dweud yn amharu pan fyddwn yn adrodd mewn eisteddfodau lleol neu gymryd rhan mewn gwasanaethau yn ysgol Dinorwig. Nid yw atal dweud yn amharu o gwbl ar unrhyw un sy'n canu a gwelsom hyn ar ei orau pan fu Gareth Gates, sydd ag atal dweud arno, yn perfformio mor arbennig ar raglen boblogaidd Pop Idol. Wrth sôn am ysgol mae therapyddion iaith a lleferydd arbenigol yn ymweld ag ysgolion y dyddiau hyn. Diolch amdanynt. Dywedir fod 8% o blant yn cael atal dweud ar ryw gyfnod ond bod y rhan fwyaf ohonynt yn mynd ymlaen i siarad yn rhugl a bod 3% o oedolion yn byw hefo'r cyflwr drwy gydol eu hoes. Pam meddech fy mod yn crybwyll atal dweud yn yr erthygl hon? Mae a wnelo hyn yn bennaf â pheldroediwr o fri y dof ato yn y man!

### ATAL DWEUD YN Y BEIBL

Yn y Geiriadur Mawr o dan y gair "stammering" ceir "ag atal dweud" a "bloesg" ac mae'r gair hwnnw - "bloesg" - i'w gael deirgwaith yn Llyfr y Proffwyd Eseia. Ym mhennod 28 ceir "canys â bloesgni gwefusau" ac ym mhennod 32 "a thafod y bloesg yn siarad yn llithrig a chlir" ac yna ym mhennod 33 "a'u tafod yn rhy floesg i'w ddeall". Diddorol iawn gweld yng Ngeiriadur yr Academi sawl gair o wahanol rannau o Gymru am atal dweud megis cecian, dydio, hecian, dydian a cagio. Faint ohonoch chwi ddarllenwyr sy'n gyfarwydd â rhai o'r gwahanol eiriau hyn?

### OFFEIRIAID AG ATAL DWEUD

Yn ddiweddar rhannodd dau offeiriad eu profiadau gydag atal dweud a hynny yn ddidwyll iawn. Un ohonynt oedd y Parchedig Calum Burke a ddywedodd fod atal dweud arno ers iddo ddechrau siarad. Dyma a ddywedodd: "Er fy mod yn gwybod y gwasanaeth Eglwysig yn dda yr oeddwn yn cael fy hun ar adegau yn mynd yn styc. Un tro pan ddigwyddodd hyn teimlais fod Duw yn dweud wrthyf - "Gelwais ti er fy mod yn gwybod am yr atal dweud sydd gennyt – nid yw'n syndod i mi".

Yr offeiriad arall yw'r Parchedig James Hawkey a dyma ei eiriau ef: "Cofiaf fel ddoe y foment y sylweddolais fod gan Moses nam lleferydd. Meddyliaf hefyd am ddysgeidiaeth yr Apostol Paul mai 'mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth'. Roedd offeiriad arbennig iawn yn ddylanwad mawr arnaf pan oeddwn yn tyfu i fyny ac roedd atal dweud arno. Pan wnes i ddarllen o'r Beibl yn yr Eglwys am y tro cyntaf safodd wrth fy ymyl i roi cefnogaeth lwyr i mi."




### DIOLCH I KEN SEMA

Pwy yw hwn meddech? Fel un sy'n dilyn yn frwd amryw o chwaraeon ac yn eu plith bêl-droed, rhaid cyfaddef mai dim ond yn ddiweddar y deuthum yn gyfarwydd â Ken Sema. Mae miliynau bellach yn gwybod amdano. Chwarae i dîm Watford a wna a chafodd gyfweliad yn ddiweddar wedi iddo sgorio dwy gôl yn eu buddugoliaeth o dair gôl i ddwy yn erbyn West Brom. Dim byd allan o'r cyffredin yn hynny meddech. Mae'n rhan naturiol o ddyletswyddau amryw o chwaraewyr ar ddiwedd pob gêm. Ond yn achos Ken Sema aeth ei gyfweliad byr o funud a deugain eiliad ar gyfrif Twitter ei glwb i sylw miliynau - cafodd ei wylio 40 miliwn o weithiau – a'r rheswm am hyn oll oedd ei atal dweud. Hyn, ac nid ei dalent ar y cae y pnawn hwnnw, gafodd y sylw mwyaf.

Roedd Ken wedi gwirioni'n lân ei fod wedi medru cynorthwyo plant ac oedolion a oedd fel ef yn dioddef o atal dweud. Dywedodd hefyd fod atal dweud wedi bod yn rhan o'i fywyd ers pan oedd yn chwech oed, wrth iddo dyfu i fyny yn ninas Norrkoping yn nwyrain Sweden. Nid oedd Ken am ganiatáu i'w atal dweud fod yn rhwystr o gwbl yn ei fywyd a dyna oedd ei gyngor i bawb arall. "Ken ydw i ac mae gen i atal dweud!" meddai. Does dim rhaid dweud mwy.

# O'r Pen Yma



## gan **Angharad Tomos**

Cefais y cyfle i fynd i Baris ym mis Mai, a dyna braf oedd hynny. Ron i wedi bod yn berffaith hapus yn aros adre drwy gyfnod Covid, wedi argyhoeddi fy hun nad oedd teithio mor braf â hynny, a bod cysuron adref yn rhagori ar bopeth. Gyda'r Wyddfa ar garreg fy nrws, beth mwy oedd unrhyw un ei eisiau?

Bu saith mlynedd ers i mi droedio strydoedd Paris, a'r funud y brathais y croissant gyntaf, sylweddolais mod i wedi colli'r ddinas yn ddychrynllyd – a dinasoedd – a gwledydd eraill. Mwya sydyn, ron i eisiau gweld popeth, eisiau blasu popeth, eisiau rhyfeddu at adeiladau, ron i'n chwenychu golygfeydd newydd a phrofiadau newydd. Tydwi'n greadures anwadal?

Dwi am gyfeirio at un gornel fechan o Baris yn unig, sef yr hen siop lyfrau Saesneg enwog, Shakespeare & Company, a rydw i newydd orffen darllen llyfr am hanes y siop. Fe'i sefydlwyd gan mlynedd yn ôl gan Americanes ifanc fentrus, a daeth yn sefydliad yn fuan iawn oedd yn denu awduron fel Ernest Hemingway. Gertrude Stein, T.S.Eliot a Scott Fitzgerald. I'r fan hon y deuent, i brynu llyfrau, ond hefyd i gymdeithasu a chynnal nosweithiau. Fyddai James Joyce byth yn cyrraedd cyn amser cinio, a'i bryder mawr oedd nad oedd neb am gyhoeddi ei nofel, Ulysses. Yn y diwedd, cyhoeddodd perchennog Shakespeare & Co, Sylvia Beach, y llyfr.

Pan ddaeth dyddiau yr Ail Ryfel Byd, caewyd y siop ym 1941, a chadwyd Sylvia yn y ddalfa am 6 mis gan y Natsiaid. Bu'r lle ar gau wedyn am ddeng mlynedd, ond ym 1951 cymerodd Americanwr ifanc arall, George Whitman, y siop a fo a'i lluniodd fel ag y mae heddiw. Er iddo farw yn 2011 yn 98 oed, mae ei ferch yn gyfrifol am y lle bellach, ac mae'n dal yn noddfa i unrhyw un sy'n hoff o lyfrau.

Teithiwr brwd oedd George oedd wedi cerdded yn helaeth yn ei ieuenctid, ac wedi cael croeso gan bob math o bobl. Wedi iddo sefydlu ei siop lyfrau, penderfynodd gynnig yr un croeso i bobl o bob cwr o'r byd. Unrhyw un oedd eisiau llety, roedd croeso iddynt aros yn y siop. Ar y wal ar yr ail lawr, mae'r geiriau 'Be not inhospitable to strangers, lest they be angels in disguise.' O'r Beibl y daw'r geiriau, o Hebreaid 13:2.

Byddai'r rhan fwyaf ohonom yn rhoi'r geiriau hyn ar ein wal, ac anghofio amdanynt, ond bu'r adnod hon yn ganllaw i George hyd ei farw. Pwy bynnag oedd yn curo ar ddrws y siop, ddydd neu nos, roedd yn fodlon rhoi gwely iddynt, a'u bwydo. Daethant yn eu cannoedd – o bob cyfandir. Byddai llawer yn gweithio yn y siop, yn dâl am y llety, a'r unig amod oedd eu bod yn darllen llyfr y dydd. Gallai'r oriau fod yn faith, ond byth yn ddiflas, a byddai crempogau chwedlonol George ar gael amser brecwast, ac roedd ei gawl wastad yn ffrwtian ar y tân. Doedd o mo'r creadur hawsaf i fyw efo fo, rhaid dweud; byw er mwyn llyfrau oedd o. Doedd ganddo ddim amynedd efo cadw llyfrau cownt, a doedd fawr o drefn ar y silffoedd. Ond yma y deuai pawb.

Pan es yno eleni, bu raid aros mewn ciw am bron i chwarter awr cyn mynd i mewn i'r siop hyd yn oed, mae wedi dod mor enwog â hynny. Ond mae'n waddol gwerth chweil dydi? Mae bywydau cynifer o bobl ifanc wedi cael eu heffeithio gan yr un llyfrwerthwr yma, a sawl llenor wedi cael hwb i gychwyn ar yrfa o sgwennu.

'Parhaed brawdgarwch' yw adnod gyntaf Hebreaid 13, ac roedd George yn Sosialydd rhonc. Byddai'n dda i ninnau gofio'r ail adnod yn amlach, 'Nac anghofiwch letygarwch: canys wrth hynny y lletyodd rhai angylion yn ddiarwybod.'



# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## *Ebeneser, Dolgellau*

**GWASANAETHAU'R PASG**
Ar y Groglith yn ôl ein harfer cawsom wasanaeth o fyfyrdod yn Ebeneser a braf oedd cael croesawu aelodau o Salem a'r Tabernacl atom. Yna aethom ar Daith Gerdded o'r Marian i Sgwâr y Dref a chynhaliwyd oedfa ddwyieithog gydenwadol yn yr awyr agored. Braf oedd gweld rhai ymwelwyr yn ymuno gyda ni. Ar fore Sul y Pasg arweiniwyd y gwasanaeth gan y Chwaer Eluned Williams.

**CAPEL CAFFI**
Rydym yn addoli'n llai ffurfiol ar y pumed Sul o'r mis ac ar Sul olaf mis Ebrill cawsom gyfle i ddefnyddio'r Llyfrgell Rydd yn y Sgwâr ar gyfer Capel Caffi. Ein thema y tro hwn oedd Crist y Bugail Da ac yn dilyn ein paned a bisgedi dechreuodd ein haddoliad a'n trafodaethau grŵp, gyda chyfle i bawb gyfrannu. Edrychwn ymlaen at Sul olaf mis Gorffennaf gyda her newydd i ni.

**CYFARCHION PEN-BLWYDD**
Yn y gwasanaeth ar 7 Mai cyflwynodd Nesta ac Efin dusw o flodau i'r Chwaer Eluned gan mai dyna ddiwrnod ei phen-blwydd.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## *Salem, Rhyd y Foel*

**PROFEDIGAETH**
Tristwch mawr oedd clywed y newyddion am farwolaeth un o'n haelodau selog sef Margaret Roberts, Ty'n Ddol. Bu Margaret a'r teulu yn aelodau ffyddlon yng nghapel Rehoboth, Y Dawn am flynyddoedd lawer a Margaret yn organydd medrus yno. Yn dilyn dirwyn yr achos i ben, fe ymaelododd Margaret, John a'u mab Wyn yn Salem a bu Margaret yn barod iawn ei chymwynas i gyfeilio yn achlysurol. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ddydd Iau 30ain Fawrth o dan ofal y Parchedig R. Ifor Jones a oedd â chysylltiad agos â'r teulu, ac roedd y capel yn orlawn. Gwaetha'r modd ni allai John, priod Margaret fod yno oherwydd gwaeledd – yn wir ar ddiwrnod yr angladd cafodd lawdriniaeth ar ei galon yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl. Cydymdeimlwn â John, Wyn a'r teulu yn eu colled a'u trallod a dymunwn adferiad iechyd buan i John.

**SUL Y BLODAU**
Ar Ebrill 2il cafwyd gwasanaeth arbennig o dan ofal y plant a'r mamau o dan arweiniad Catherine. Fe wnaeth pawb eu rhan yn rhagorol gan ddehongli Sul y Blodau mor ystyriol. Daeth y plant â blodau i'w taenu ar fwrdd y Cymun. Cyd-ddigwyddiad fod Sul y Blodau eleni yn ddiwrnod "Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd" – oedd yn berthnasol iawn gan fod un o'r plant, Tirion, ag awtistiaeth. Cymerodd Tirion ran yn frwdfrydig yn y




gwasanaeth. Ar derfyn y gwasanaeth fe roddodd Catherine wyau Pasg i'r plant. Diolch iddi hi am drefnu ac i Anna am ddysgu'r plant a chyfeilio. Hyfryd oedd gweld dros 30 yn bresennol yn yr oedfa.

**Y GYMDEITHAS**
Nos Fawrth 25ain o Ebrill cynhaliwyd noson gymdeithasol yn y festri. Y gŵr gwadd oedd y digrifwr a'r diddanwr poblogaidd Dilwyn Morgan. Cafwyd noson arbennig yn ei gwmni a phawb wedi mwynhau. Roedd y merched wedi darparu gwledd ar ein cyfer ac yn wir fe gafwyd gwledd o adloniant gan Dilwyn.

**LLWYDDIANT**
Fe gafodd rhai o'r plant lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd a dymunwn yn dda iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanymddyfri.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## *Tabernacl, Llanfyllin*

**OEDFA'R TEULU**
Gwyrthiau'r Iesu oedd thema'r gwasanaeth y tro hwn. Cymerwyd rhan gan aelodau o'r Tabernacl a Phendref. Y gwyrthiau a ddewiswyd oedd 'Troi'r dŵr yn win', 'Iacháu merch Jairus','Porthi'r miloedd' ac 'Iacháu'r Deg Gwahanglwyf '.a phob un yn dangos awdurdod yr Iesu mewn gwahanol amgylchiadau.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Cafodd y cyhoedd gyfle i fynd am dro drwy Goed Caeaugwynedd i fwynhau byd natur. Roedd yno hefyd gôr o leisiau, y 'Vivace Singers', yn diddori. Roedd yn brynhawn braf i fwynhau paned a digon o gacennau. Llwyddwyd i godi £334.70 tuag at elusen Gweithredu Dros Blant.

**CYNGERDD**
Cynhaliwyd cyngerdd yn y capel tuag at Ymchwil Alzheimer. Gloria Griffiths a'i chantorion ifanc oedd yn perfformio, sef plant o'r ysgolion uwchradd lleol a hyfforddwyd gan Gloria. Ar ddiwedd y cyngerdd mwynhawyd lluniaeth. Llwyddwyd i godi £850 i'r elusen arbennig hon. Trefnwyd y cyfan gan Gloria a'i chyfeillion.

**BABAN NEWYDD**
Llongyfarchiadau a phob bendith i Elin Roberts a'i chymar ar enedigaeth mab bychan o'r enw Harri. Hefyd i Taid a Nain, sef Elwyn a Llywela, Cartrefle.

**YMDRECH GWEINIDOGAETH BRO**
Cynhaliwyd prynhawn i godi arian at y Banc Bwyd Lleol yn Llanrhaeadr ym Mochnant, gyda chyfle i aelodau'r gwahanol gapeli fynd â rhoddion i'w dosbarthu a mwynhau sgwrs a phaned. Codwyd swm anhygoel sef £700 tuag at yr elusen. Diolchwyd i bawb gan Mr Tom Morris.

**GWELLHAD**
Rydym yn falch iawn bod Mrs Enid Morris yn gwella wedi cael triniaeth i'w phen-glin. Rydym yn colli ei chwmni ar fore Sul. Cofion at bawb arall sydd yn gaeth i'w cartrefi neu yn cwyno.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## *Jerwsalem, Wrecsam*

### TE ARBENNIG

Ar ddechrau mis Mai roedd hi'n ben-blwydd arbennig ar un o'r bobl fwyaf ffyddlon yn Jerwsalem, Wrecsam. Roedd Elfed Hughes, organydd yr eglwys, yn 80 oed ac aethom am De Prynhawn i ddathlu. Ychydig a wyddem wrth drefnu'r digwyddiad y byddai'r ardal, ymhen ychydig oriau, yn llawn o gefnogwyr CPD Wrecsam yn dathlu dyrchafiad y clwb gan orymdeithio o amgylch y ddinas. (Daeth sawl un ohonom yn ôl i ddathlu, gydag un o'n plith hyd yn oed yn cael tynnu ei llun gydag Owain Tudur Jones!) Oherwydd anhwylder a phrofedigaeth nid oedd Gwyn a Bronwen Evans yn gallu bod gyda ni – estynnwn ein cydymdeimlad â hwy yn eu colled fawr o golli merch-yng-nghyfraith. Diolch i Sheila Lloyd am y trefniadau. Y cwestiwn yw: pwy sydd â dathliad arbennig nesa?

**GOHEBYDD .**
MARGARET MORGAN



## *Bethel, Prestatyn*

### GWASANAETH Y PASG

Yn ein gwasanaeth arbennig i ddathlu'r Pasg, "Mae'n dod, mae'n dod, mae'r Brenin yn dod" oedd yr emyn cyntaf a chafwyd cyfle i chwifio sgarffiau chiffon fel arwydd o groeso, wrth ganu'r emyn. Adroddwyd stori'r Pasg wrth y plant drwy holi ac ateb, yna wedi iddynt fynd i'r Ysgol Sul cafwyd anerchiad ar y testun "Mae'r Iesu'n fyw heddiw – sut rydym yn gwybod?" Ar ddiwedd y gwasanaeth daeth pawb ymlaen i addurno'r groes gyda blodau fel arwydd o fywyd newydd. Mwynhawyd lluniaeth wedyn a chyflwynwyd wyau Pasg i'r plant. Cofiwn am yr aelodau na allodd ddod i'r oedfa hon ac oedfaon eraill oherwydd gwaeledd.

### LLONGYFARCHIADAU

Bu nifer o'n plant yn cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd – llongyfarchiadau mawr iddynt. Enillodd Carys a Bethan yr ail wobr ar y ddeuawd a bu Lili Medi a Lilly Harrison yn llwyddiannus hefyd.

### PEN-BLWYDD ARBENNIG

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Glenys Davies ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Mae Mrs Davies wedi bod yn aelod ffyddlon o'r Eglwys Fethodistaidd ar hyd ei hoes ac yn parhau i helpu gyda gweithgareddau.

### MERCHED METHODISTAIDD

Diolch i bawb a fynychodd Gyfarfod Gwanwyn Merched Methodistaidd yma ym Methel ar Ebrill 22ain. Diolch yn arbennig i bawb a gyfrannodd at y Cinio Cyfeillgarwch a'r unigolion a sgwrsiodd am eu gwaith gwirfoddol.











### PANED A SGWRS

Diolch i bawb sy'n helpu gyda Phaned a Sgwrs bob bore Mercher.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Ebeneser, Treuddyn*

### PROFEDIGAETH

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth aelod, sef Mrs Eiddwen Jones. Un a oedd wastad â gwên ar ei hwyneb ac yn edrych ar ochr orau bywyd er iddi wynebu salwch ers nifer fawr o flynyddoedd. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i phlant, Wyn, Euryn a Hafwen ynghyd â'i hwyrion a'i gôr ŵyr. Hefyd ei mam Mrs Beti Jones a gweddill y teulu. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Ebeneser ar Ebrill 18fed dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ.

### PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau i Gwenllïan a Stephen Williams ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddynt a braf oedd deall eu bod yn cael ychydig ddyddiau o wyliau i ddathlu.

### BORE COFFI

Yn ystod mis Mai cynhaliwyd Bore Coffi yn Hafan Deg er budd y Capel. Diolch yn fawr iawn i'r aelodau am drefnu a gofalu am bopeth.

### DIOLCH

Diolch yn fawr i'r pregethwyr a fu gyda ni yn ystod y misoedd diwethaf, sef y Parchedigion Eirlys Gruffydd Evans, Marc Morgan a Jennie Hurd, Mrs Maryl Rees a Mrs Margaret Morgan. Edrychwn ymlaen at ein Rali Flynyddol ar Fehefin 11eg pan fydd y Parchedig Robert Parry gyda ni.

### DATHLU

Yn ystod mis Mehefin byddwn yn dathlu 200 mlynedd ers sefydlu'r hen Gapel a 150 mlynedd ers adeiladu'r Capel presennol. Byddwn yn dathlu ar ddydd Sul, Mehefin 18fed am 4 y prynhawn gyda'r gwasanaeth dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael wedyn. Estynnwn groeso cynnes i bawb a gobeithiwn y bydd nifer o gyn-aelodau yn gallu bod yn bresennol.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## Shiloh Newydd, Tregarth

**DRWS AGORED**
Mae nifer dda yn dod am baned a sgwrs bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Bydd rhai yn galw heibio wrth fynd am dro ar hyd y Lôn Las. Eithriadol o braf hefyd yw cael croesawu rhai sy'n dysgu Cymraeg i'n plith.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at un o'n baenoriaid, Wynne Roberts, a fu yn Ysbyty Gwynedd am nifer o wythnosau ond sydd bellach wedi cartrefu yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon yn y Felinheli. Gobeithio eich bod wedi setlo yno Wynne. Dymuniadau gorau hefyd i Paul, mab Wynne, sydd wedi dod drosodd o Seland Newydd am rai wythnosau.

Rydym yn falch o ddeall fod y Parchedig Philip Barnett yn gwella'n dda yn dilyn llawdriniaeth a'i fod yn gobeithio bod yma yn Shiloh yn fuan.

**GWASANAETHAU**
Gan ei bod yn wanwyn rydym wedi dechrau cynnal ein hoedfaon yn y capel ei hun unwaith eto. Cofiwn yn annwyl am rai na allant fod gyda ni, gan gofio hefyd am y rhai sy'n gofalu amdanynt – gwaith mor hanfodol ond diddiolch yn aml yn ein cymdeithas. Arweiniwyd ein gwasanaethau yn ystod Mawrth ac Ebrill gan y Parchedigion Ian Morris, Eric Jones, Olaf Davies, Dewi Morris, Dafydd Coetmor Williams a Geraint Roberts, hefyd Dafydd Iwan a Ffion Rowlinson. Diolch yn fawr iddynt.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

# TONIC I GODI CALON




### *gan Glyn Tomos*

Pan nad oeddan ni fel plant yn teimlo yn dda ers stalwm, mi fyddai Mam yn rhoi tonic i ni. Hyd heddiw dwi ddim yn gwybod beth yn union oedd wedi ei gynnwys yn y ffisig hwnnw ond mi oedd yn gwneud y tric, oherwydd mewn dim roeddan ni wedi gwella digon i'w heglu hi allan i chwarae efo'n ffrindiau fel petai dim wedi digwydd.

Dwn i ddim amdanoch chi ond does dim gwell gen i na bod yng nghwmni pobl ddifyr sydd gyda'u hiwmor neu storïau yn gwneud i chi deimlo yn well a dod â gwên i'r wyneb am weddill y dydd. I mi mae cwmnïaeth o'r fath yn donic pur.

Yn ddiweddar mi wnes i gyfarfod gwraig oedrannus, ifanc ei hysbryd oedd yn llawn bywyd a chalon hynod o ffeind ganddi. Roedd hi yn gymeriad a hanner ac yn codi calon go iawn. Wrth fynd dros riniog ei drws ffrynt roedd ei chroeso yn gynnes a'r sgwrs yn donic.

Roedd hi wrth ei bodd gyda'r lliw pinc, ac ar ddechrau eleni fe ofynnodd i beintiwr lleol beintio tu allan i'w thŷ – y ffrynt a'r cefn – yn y lliw hwnnw. Ar ôl gaeaf hir a gwlyb teimlai bod y lliw pinc yn rhoi gwên ar ei hwyneb wrth iddi ddod adref i'r tŷ. Teimlai mai lliwiau digon llwyd a diflas oedd o'i chwmpas gan amlaf, tra bod y lliw pinc yn cnesu'r galon ac yn gwneud iddi deimlo'n well. Er cyfaddef nad oedd y lliw at ddant pawb roedd hi yn sylwi ei fod yn dod â gwên i wyneb nifer oedd yn mynd heibio'r tŷ naill ai wrth gerdded neu wrth deithio yn y car.

Mae'n wir fod ychydig o liw mewn bywyd yn gallu gwneud gwahaniaeth. Faint o weithiau ydach chi wedi clywed pobl yn deud pa mor bwysig ydy cael ychydig o liw o ran dillad. Nid yn unig y mae hyn yn goleuo personoliaeth yr un sydd yn gwisgo'r dillad, ond hefyd yn trosglwyddo yr effaith hwnnw wrth ddod i gysylltiad â phawb arall.

I nifer ohonom, amser yma'r flwyddyn sydd yn cynnig y tonic go iawn. Dyma'r adeg pan fyddwn yn gweld bywyd yn dod yn fyw o'n cwmpas. Mae natur yn deffro o drwmgwsg y gaeaf, y tywydd yn dechrau cnesu a phawb fel petaent yn teimlo'n well ac yn methu disgwyl am yr haf. Dyma'r adeg pan mae'r dillad haf yn dod allan o'r cwpwrdd dillad, cerddediad pawb i'w weld yn ysgafnach a mwy o amser i sgwrsio gyda chymdogion wrth iddi aros yn olau yn hwyrach gyda'r nos.

Dros yr wythnosau diwethaf mae planhigyn oedd gennym o flaen y tŷ wedi blodeuo am y tro cyntaf ar ôl blynyddoedd o ddisgwyl a phawb sydd yn mynd heibio yn sylwi arno, ac yn dotio at y blodau pinc llachar. Yr un pryd mae'r planhigyn ei hun fel petai yn swancio wrth ddangos gwychder y lliw a'r sylw mae'n ei gael gan bawb. Er mor anodd mae'r gaeaf wedi bod i lawer, mae gweld ychydig o liw, hyd yn oed am eiliadau byr, yn gwneud gwahaniaeth i ysbryd rhywun, yn codi'r galon ac ysgafnhau rhywfaint ar bwysau byw bob dydd.

Does dim diwrnod yn mynd heibio heb ein bod ni yn rhyfeddu at y greadigaeth a greodd Duw i ni, o ran ysblander yr amgylchfyd o'n cwmpas. Mae clywed yr adar yn canu o'n cwmpas a gweld y bryniau a'r mynyddoedd yn edrych mor glir ac atyniadol ar ddiwrnod braf yn ein hatgoffa o rodd Duw i bob un ohonom a chymaint o waith diolch sydd gennym.

# A Oes Gobaith Gerllaw Y Dyfroedd Tawel?

### *gan Eirlys Gruffydd-Evans*



Ar lan Afon Alun mae llannerch goediog a ffynnon sanctaidd yn byrlymu yn ei chanol. Nid oes dim i'w glywed ond sŵn hudolus y dŵr sy'n peri i ddyn deimlo fel pe bai mewn swyngwsg. Y tro cyntaf i mi sefyll ger Ffynnon Degla yn Llandegla teimlais flas y cynfyd a gwyddwn fod y man yma wedi bod yn gysegredig i ddynoliaeth ymhell bell yn ôl. Yn sicr roedd hon yn ffynnon oedd yn gysegredig i'r hen dduwiau Celtaidd cyn dyfodiad Cristnogaeth i'r ynysoedd hyn. Yn rhyfedd iawn, paganaidd oedd patrwm y defodau a ddilynwyd o gwmpas y ffynnon a hynny tan tua 1850. Beth, medde chi, oedd yn denu pobl at y ffynnon arbennig hon? Dyma'r unig ffynnon yng Nghymru y gwn i amdani oedd yn honni gwella epilepsi neu'r haint digwydd, Clwyf Tegla neu'r *falling sickness* yn Saesneg. Mae'n salwch andwyol iawn sy'n dinistrio bywydau unigolion a theuluoedd.

Yn Efengyl Mathew 9: 14 - 29 cawn enghraifft o sut y byddai Iesu'n delio â'r salwch. Esboniad ar y cyflwr yn y cyfnod hwnnw oedd mai ysbryd aflan oedd yn meddiannu'r claf. Roedd tad wedi dod â'i fab at Iesu ond ar y pryd roedd yr Arglwydd wedi mynd i ben mynydd Tabor gyda Pedr, Iago ac Ioan ac wedi cael ei weddnewid yno. Wedi'r profiad ysbrydol bythgofiadwy hwnnw rhaid oedd dychwelyd at weddill y disgyblion wrth droed y mynydd. Roedd y tad, yn absenoldeb Iesu, wedi ceisio cael y disgyblion i iacháu'r bachgen a hyn wedi achosi cryn gynnwrf ymhlith y dorf oedd wedi ymgasglu yno. Methiant fu ymgais y disgyblion i fwrw'r ysbryd allan. Holodd Iesu'r tad yn fanwl am gyflwr ei fab ac wrth i Iesu orchymyn i'r ysbryd adael y bachgen cafodd hwnnw ei daro'n wael a syrthiodd yn anymwybodol ar lawr. Gafaelodd Iesu yn ei law a'i godi i fyny yn holliach.

Pobl yn chwilio am wellhad ddaeth at Ffynnon Degla. Nid ar fater bach y byddai rhywun yn mynd trwy'r broses anodd a chostus o gael iachâd. Rhaid oedd dod at y ffynnon wedi machlud haul ar nos Wener a cherdded o gwmpas y ffynnon deirgwaith gan adrodd Gweddi'r Arglwydd deirgwaith ar y tri thro. Os mai gwrywaidd oedd y claf cariai geiliog mewn basged ond iâr os mae benywaidd ydoedd. Yna rhaid oedd pigo'r aderyn â phin, ei blygu ac yna'i daflu i'r ffynnon a thalu pedair ceiniog i glerc y plwyf yn y fan a'r lle. Cerdded wedyn i fyny at yr eglwys a cherdded o'i chwmpas deirgwaith gan gario'r aderyn ac adrodd Gweddi'r Arglwydd deirgwaith. Yna aed i mewn i'r eglwys, rhoi pedair ceiniog arall ym mlwch y tlodion cyn gorwedd o dan fwrdd y Cymun neu'r allor gyda'r Beibl yn glustog a thynnu carped drosto. Ar doriad gwawr rhoddai'r claf big yr aderyn yn ei geg a chwythu i mewn iddo gan drosglwyddo'r afiechyd iddo cyn ei adael yn rhydd. Rhoddid darn o arian ym mlwch y tlodion a gadael yr aderyn yn yr eglwys. Pe byddai'r creadur farw yna byddai'r claf yn gwella. Cerddai'r claf yn ôl at y ffynnon, a mynd o'i hamgylch deirgwaith gan adrodd Gweddi'r Arglwydd bob tro – cymysgedd hynod o Gristnogaeth a defod baganaidd.

Gallwch ddod o hyd i'r ffynnon ryfeddol hon wrth droi oddi ar yr A5104 gyferbyn â'r capel a mynd at yr eglwys lle mae maes parcio. Wedyn cerdded i lawr at y bont a dilyn y mynegbost at y ffynnon. Tybed a wnewch chi deimlo ffydd a gobaith y rhai ddaeth ati i geisio gwellhad?

# Wrth fynd heibio gan **William H. Owen**

Nid oes amheuaeth y byddaf yn pechu rhai ohonoch drwy ddweud fy mod eleni wedi gwylio un o wasanaethau mwyaf cofiadwy yr unfed ganrif ar hugain. Er nad wyf yn frenhinwr o fath yn y byd ni chefais unrhyw anhawster i osod fy hun o flaen y set deledu i fod yn dyst i goroni'r Brenin Siarl y Trydydd ar y chweched o Fai.



Rhaid fod y coroni diwethaf â rhyw fath o ddylanwad. Roedd hynny cyn i mi erioed weld set deledu a llun du a gwyn yn unig arni. Y pryd hwnnw ni chofiaf fod unrhyw deimlad o atgasedd at y Frenhiniaeth. Bodlonai pawb, hyd y gwyddwn, ar y drefn a phob un o'r genhedlaeth iau yn barod i gyfarfod yn gytûn yn yr un lle i fod yn rhan o'r parti llawen i ddathlu coroni'r Frenhines Elizabeth yr Ail.

Am ryw reswm nid oedd y ffaith fod rhai o fy nheulu yn byw yn hen gartref Seneddwr a roddodd ei enw ar y wŷs i dorri pen Siarl y Cyntaf wedi dylanwadu dim arnaf. Dim ond straeon o oes bell yn ôl oedd y rheiny am Frenhinwyr yr ardal yn gorfod wynebu milwyr Cromwell. Byd gwahanol iawn oedd dechrau'r 1950au a'r Brenin yn marw yn fuan ar ôl rhyfel didostur a'i ferch yn dechrau ar ei theyrnasiad hir.

Y tro hwn roeddem yn gweld y cyfan o'r coroni yn fyw o Abaty Westminster mewn lliw cain a chamerâu'n sbecian o bob ongl. Mae'n swnio'n rhyfedd, mi wn, ond nid oeddwn wedi disgwyl y byddai'n wasanaeth mor grefyddol a'r pwyslais mor fawr ar Gristnogaeth. Yn sicr, dyna a gafwyd gan hoelio'n sylw mai Siarl y Trydydd yw pen Eglwys Loegr. I anghydffurfwyr mae'n wrthun ei fod yn ben ar y lluoedd arfog yr un pryd ac mae'n anodd dygymod â'r ddeuoliaeth hon.

Ond o fewn adeilad yr Abaty ar y diwrnod, arwain y Brenin i roi ei sêl dros waith ei Waredwr a wnâi Archesgob Caergaint. Anachronistaidd yw gwasanaeth fel yma yn ein hoes ni, meddai'r beirniaid, gan dynnu ein sylw at eneinio anweledig hen ŵr gydag olew sanctaidd. Beth bynnag y farn am weithred fel yma yn y dirgel nid oes gwadu nad oedd y gwasanaeth coroni yn rhoi llwyfan digamsyniol i'r ffydd Gristnogol. Er bod crefyddau eraill yn cael eu cynrychioli a'u cydnabod yn yr Abaty, yn bendifaddau gwyddem pa un oedd yn cael ei dyrchafu ar y diwrnod. Yn ein hoes seciwlar ni mae'n wyrthiol fod hyn yn digwydd.

Fydd gwasanaeth fel yma ddim yn digwydd eto, yn ôl rhai sylwedyddion. Wedi saith deg o flynyddoedd ers y diwethaf, dyma'r olaf. Fyddwn i ddim mor bendant fy marn. Yn sicr, bydd newid ar y ffurf fel yr oedd y tro hwn o'i gymharu ag un Elizabeth yr Ail, ond mae rhywbeth yng ngwaelod fy mod yn dweud fod y sefydliad yn rhy gryf i amddifadu Abaty Westminster o wasanaeth coroni arall. A bydd y brenin hwnnw'n iau ac yn mwynhau llawer mwy ar y profiad.



# Parhau i gloddio am aur

## *gan Prydwen Elfed-Owens*

*'Ti angen dôs o realiti, madam,'* fyddai cerydd Mam wrthi i mi wthio fy mysedd i 'nghlustiau i osgoi clywed stori ARALL am arswyd bywyd rhywun.

Wel, dau fis yn ôl daeth fy mywyd i i *'emergency stop'* pan hyrddiwyd fy ngŵr oedrannus i benllanw realiti ar olau glas. Diffodd ei fywyd petai'r driniaeth yn aflwyddiannus, dyna oedd y realiti – a dim osgoi y tro hwn. Arswyd y byd!

Treuliais oriau ddydd a nos wrth erchwyn ei wely yn yr ysbyty yn dyst i ofal trylwyr tîm ifanc o bob lliw a llun. Roedd y gofal yn ddiffuant a llwyddiannus er y prinder a'r prysurdeb. Gwellodd a glaniodd, yn hen a pharchus tu hwnt i fawl a sen, mewn stafell heb ddim o flaen ei dôr ond afallen bêr flodeuog. Gwyrth dan arweiniad meddygon **ifanc**!

Mae llawer i gapel yn gwegian oherwydd prinder arweinwyr heb sôn am arweinwyr ifanc, ond ydym ni'n rhoi cyfle i'r ifanc arwain? Wrth gwrs ceir enghreifftiau goleuedig ledled Cymru o rai sydd yn **meithrin yr ifanc i fod yn arweinwyr**. Y tro hwn, hoffwn dynnu sylw at waith tri ohonynt gan gyflwyno tystysgrif Malwan Bach iddynt:

- Y Parchg D Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru
- Y Parchg Beti-Wyn James, Gweinidog Bro Caerfyrddin
- Sharon Morgan, Arweinydd Eglwys Unedig Llanfair, Penrhys

# Gair y Dydd

Mewn oes sy'n cymryd cymaint o bethau'n ganiatäol, onid hyfryd yw derbyn gair o ddiolch neu werthfawrogiad. Diolch yn fawr felly i Miss Eurwen Richards, Penybont-ar-Ogwr am anfon y nodyn yma at bwyllgor *Gair y Dydd* yn ddiweddar.

*"Pennawd y myfyrdod yng Ngair y Dydd ryw bythefnos oedd 'gwnewch'. Penderfynais ar y pryd taw dyna oedd 'job y dydd' ond nawr mae'n cael ei gyflawni… Roeddwn am anfon gair o ddiolch i chi a'r pwyllgor. Rwyf wedi cael bendith fawr o'r pytiau myfyrdod. Gwn pa mor anodd yw hi i gael rhywbeth addas a 'fresh' ac mae'r misoedd olaf hyn yn fy nhyb i, wedi bod yn arbennig… Diolch i'r awduron ond gwn nad oes dim yn digwydd heb gefnogaeth tu cefn. A dyna rwy'n teimlo ydych chi a'r pwyllgor yn ei wneud."*

Fel y gŵyr y rhelyw ohonoch dw i'n siŵr, llyfryn o fyfyrdodau defosiynol dyddiol yw *Gair y Dydd*, a gaiff ei gyhoeddi gan banel cyd-enwadol bob tri mis (ers 1962!) Dyma'r unig gyhoeddiad o'r fath yn y Gymraeg. Gan mai awdur gwahanol sy'n gyfrifol am y myfyrdodau misol, ceir amrywiaeth eang o destunau a phrofiadau. Awduron y rhifyn cyfredol yw'r Parchg Emyr Gwyn Evans, y Parchg Dyfed Wyn Roberts a'r Dr Arfon Jones. Mae pob defosiwn dyddiol yn cynnwys darlleniad(au) Beiblaidd, myfyrdod a gweddi fer.




Mae modd tanysgrifio i dderbyn y llyfryn am flwyddyn am £10 trwy law ein trysorydd, Mr David Glyn Williams (davidglynwilliams01@gmail.com).

**Eirian Dafydd** (ar ran y pwyllgor)

## Aled

I mi ef yw 'Ceidwad Goleudy Cristionogaeth' Cymru. Mae'n *tech savy* a'i wefan yn bownsio o syniadau ac adnoddau hwyliog hawdd i'w defnyddio sy'n addas i feithrin arweinwyr ifanc. Yn ogystal â hyn, mae Aled yn cynnig mentora ymarferol lle bo'r gofyn. http://www.ysgolsul.com/ https://www.facebook.com/ysgolsul

## Beti-Wyn

Gweinidog Gofalaeth Bro Caerfyrddin, sef dwy eglwys annibynnol ac un eglwys Bresbyteraidd. Rhoddir cyfle i'r ifanc chwarae eu rhan trwy gyfrwng **Pobl Ifanc Priordy** neu PIP. Ffurfiwyd PIP ar gyfer pobl ifanc er mwyn eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr eglwys. Maent yn cwrdd ar fore Sul ddwywaith y mis ac yn mynd ar ymweliadau lleol er mwyn dysgu am y gymuned a'i hanghenion trwy fynd i fannau fel Stiwdio Llyfrau Llafar y deillion, Capel Ysbyty Glangwili gan ddysgu am waith y Caplan, Pencadlys Heddlu Dyfed Powys yng nghwmni'r Caplan, Radio Ysbyty Glangwili a'r Banc Bwyd. Mae aelodau PIP yn dod i'r oedfa ac yn aros ar gyfer yr emyn cyntaf a gair o weddi cyn mynd ar eu taith. Cynigir cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn oedfaon yn rheolaidd a chyfrannu tuag ar brosiect digidol yr eglwys sef **'Y Priordy'n Arloesi Ar-lein'.** Mae Beti-Wyn hefyd wedi ehangu'r posibiliadau ar gyfer gwasanaethu fel Diacon yn yr eglwys, fel bod mwy o aelodau yn chwarae rhan fwy blaenllaw. https://www.priordy.org

## Sharon

Yn ddiweddar cefais y fraint o fynychu Ysgol Sul ac oedfa Eglwys Unedig Llanfair. Yn yr Ysgol Sul gwelais y plant a'r ieuenctid yn dewis a pharatoi pob agwedd ar gyfer yr oedfa oedd i ddilyn. Dyma enghraifft o feithrin yr ifanc. Cafwyd cynulleidfa niferus yn yr oedfa – a phob un yn cyfrannu drwy offrymu gweddi bersonol ar goedd.

Bu Sharon yn byw a gweithio yng nghymuned Penrhys ers dros 30 mlynedd ac meddai:

*Fi''n credu bod beth ni'n neud yma ym Mhenrhys yn bwysig dros ben. Ni'n agor ein drysau a ni'n croesawu pobl, beth bynnag eu cred, sdim ots. Beth sy'n bwysig yw bod ni'n gwasanaethu'r gymuned – un o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maen nhw'n teimlo mai eu heglwys nhw yw hon.*

*Mae ganddo ni gaffi sydd ar agor dridiau'r wythnos, clwb gwaith cartref i blant, gweithgareddau i bobl ifanc gyda'r nos, banc bwyd a dillad, a bore coffi fel man cynnes i bobl ddod iddo. Ni'n brysur dros ben, ac mae ein tîm o wirfoddolwyr yn arwain yn ardderchog. Fydden ni ddim ar agor hebddyn nhw.*

*Mewn rhai mannau yng Nghymru mae'r eglwys a'r capel dim ond ar agor ar ddydd Sul. Ond mae'n rhaid i ni addasu heddi, ac mae'n rhaid i'r eglwys sylweddoli bod cymaint mwy gallwn ni neud i neud gwahaniaeth ym mywydau pobl, a dangos bod Duw yn eu caru nhw. Dyna pam ni ar agor chwe diwrnod yr wythnos.*

*Y peth pwysicaf yw bod yr eglwys a'r gymuned yn gweithio gyda'i gilydd. Y mwya o bobl sydd gyda chi sy'n dod mewn i'r eglwys i gymryd rhan mewn gwahanol bethau, yr uchaf yw'r siawns bod nhw'n dod yma i addoli, achos maen nhw wedi gofyn y cwestiynau, dod yma ac ymuno yn ein sgyrsiau ni.*

https://llanfair.org.uk

Mae sefyllfa eglwysi yng Nghymru ar y cyfan yn awgrymu'n gryf fod angen i'r genhedlaeth iau gamu mlaen. Fel rheol mae ieuenctid yn *wannabees* sy'n awchu am y cyfle i arwain.

Felly gadewch i ninnau lyncu dos iawn o realiti a chyd-gerdded gyda nhw i'w galluogi nhw i dyfu a serennu.

Tua'r goleuni a hwyl am y tro.



# TUDALEN Y PLANT



LLUN: BIBLE FREE IMAGES

## Iesu'n galw ei ddisgyblion cyntaf

Pedwar pysgotwr oedd disgyblion cyntaf Iesu. Yna dewisodd wyth disgybl arall gan wneud deuddeg.

*Pan oedd Iesu'n cerdded wrth Lyn Galilea, gwelodd ddau frawd, Simon ac Andreas. Pysgotwyr oedden nhw, ac roedden nhw wrthi'n taflu rhwyd i'r llyn. "Dewch," meddai Iesu, "dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod." Heb oedi dyma'r ddau yn gollwng eu rhwydi a mynd ar ei ôl. Ychydig yn nes ymlaen gwelodd Iago ac Ioan, dau fab Sebedeus. Roedden nhw wrthi'n trwsio eu rhwydi yn eu cwch. Dyma Iesu'n eu galw nhw hefyd, a dyma nhw'n gadael eu tad Sebedeus gyda'r gweision yn y cwch a dechrau dilyn Iesu. (Marc 1:16-20 beibl.net)*

Galwodd y deuddeg disgybl at ei gilydd, a rhoi awdurdod iddyn nhw i fwrw ysbrydion drwg allan o bobl a iacháu pob afiechyd a salwch. Dyma enwau'r deuddeg oedd i'w gynrychioli: Simon (oedd yn cael ei alw yn Pedr), Andreas (brawd Pedr), Iago fab Sebedeus, Ioan (brawd Iago), Philip, Bartholomeus, Tomos, a Mathew (oedd yn casglu trethi i Rufain), Iago fab Alffeus, Thadeus, Simon y Selot a Jwdas Iscariot (wnaeth ei fradychu). (Mathew 10:1-4 beibl.net)

### Beth am liwio lluniau'r disgyblion a dysgu eu henwau.

